



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Crymych  
Ysgol y Frenni  
Caban  
Crymych  
SA413QH**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

<b>Barn</b>	<b>Yr hyn mae'r farn yn ei olygu</b>
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/02/2019**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Crymych. Mae'n cwrdd mewn caban hunangynhaliol ar safle Ysgol Y Frenni, ym mhentref Crymych, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos, rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 18 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae pedwar o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae tua hanner yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig, gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Hydref 2006.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2018. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n dda ym mhob maes dysgu ac yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb eithriadol o dda yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n ddiwyd iawn yn ystod tasgau
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn ardderchog ac maent yn gwrtais dros ben
- profiadau dysgu creadigol iawn yn diwallu anghenion a diddordebau plant yn arbennig o dda ac yn eu sbarduno i ddysgu'n fwriadus
- cwricwlwm eang, cytbwys a difyr yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan amgylchedd dysgu llwyddiannus
- arferion addysgu'r ymarferwyr yn herio'r plant yn bwrpasol
- ymarferwyr yn cefnogi a gofalu am y plant yn gydwybodol
- defnydd synhwyrol o'r adnoddau, tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir a chadarn i waith y lleoliad
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r weledigaeth fwriadus a'r targedau synhwyrol sy'n bodoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi a herio'r lleoliad yn ddeallus i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr a threfnus, sy'n arwain at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth a safonau'r plant
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant gwerthfawr gan asiantaethau allanol i wella'u medrau personol er lles y plant
- partneriaethau rhagorol â'r gymuned ac asiantaethau allanol, sy'n cael effaith ardderchog ar les y plant
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n gwneud defnydd gweithredol o'r cyllid a grantiau i greu gwelliannau effeithiol yn y ddarpariaeth

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn deall pryd i ymyrryd yn ystod gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant
- A2 Gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud o leiaf gynnydd da o'u manau cychwyn, sydd yn debyg i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae bron pob un plentyn yn gweithio'n gydwobodol gyda'i gilydd a gydag oedolion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus.

Mae llawer o blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn y Gymraeg yn fwriadus mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod gweithgareddau, heb anogaeth oedolion. Mae bron pob un yn dilyn cyfarwyddiadau yn synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig. Maent yn ymateb yn brydlon ac eiddgar i holi a heriau'r ymarferwyr. Mae hyn yn amlwg yn ystod gweithgareddau torfol wrth iddynt drafod teimladau cymeriadau mewn stori ac wrth iddynt gydweithio i blannu bylbiau a grug yn yr ardal dyfu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr ifanc deallus ac yn ymateb i gynnwys llyfrau yn effeithiol. Mae llawer yn deall bod gwahanol amgylchiadau yn effeithio ar ganlyniad stori, fel adnabod yr anawsterau sy'n bodoli i bengwin sy'n ceisio hedfan. O ganlyniad, maent yn deall diben y lluniau a'r ysgrifennu mewn llyfr ac yn trafod cymeriadau cyfarwydd yn wybodus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau'n bwrpasol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau ac yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio paent lliwgar i beintio wynebaw aelodau o'u teulu yn gwbl annibynnol. Mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod eu henwau eu hunain wrth hunangofrestru ac mae'r lleiafrif yn dechrau ffurfio llythrennau a rhifau'n dda, mewn ffurfiau adnabyddadwy. Yn ogystal, mae ychydig o blant yn ysgrifennu eu henwau ar bapur yn hyderus â phensil.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol wrth iddynt chwarae ac arbrofi â rhifau a gwrthrychau'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn didoli sanau yn bwrpasol wrth greu parau hir a byr a rhai sydd â smotiau a phatrymau tebyg, cyn eu gosod ar lein ddillad. Yn ogystal, maent yn mesur taldra ei gilydd â thâp mesur i greu cofnod effeithiol o'u tyfiant dros amser.

Mae llawer o'r plant yn adnabod, enwi a chyfrif rhifau i 10 yn annibynnol. Mae ychydig yn dechrau cyfrif i 10 a thu hwnt yn gywir wrth didoli siapiau a gwrthrychau. Er enghraifft, maent yn trefnu anifeiliaid y fferm, ceir a thractorau yn ddeallus yn ôl grwpiau penodol yn yr ardal byd bach. Mae'r rhan fwyaf yn deall bod gwahaniaethau mewn maint yn gallu effeithio ar bwysau gwrthrych. Gwelir hyn wrth iddynt ddefnyddio tafol yn synhwyrol i gydbwysu a chymharu nodweddion gwrthrychau gwahanol. O ganlyniad, mae llawer yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng 'mawr' a 'bach', 'tal' a 'byr', 'trwm' ac 'ysgafn' a pha wrthrych sy'n 'ganolog' o'i gymharu â'r lleill yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn fedrus. Maent yn rheoli teganau electronig yn hyderus ac yn dewis defnyddio camera i gofnodi eu gwaith yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechi electronig i ymarfer eu medrau echddygol manwl yn dda trwy ddefnyddio apiau yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio meddalwedd addysgol a chaledwedd y lleoliad yn fwriadus i wella'u medrau TGCh.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion siapiau sydd wedi'u cuddio dan bapur ac yn cydweithio'n ddiwyd i ddarnodi sut i droi dŵr mewn i îâ. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn greadigol ac arbrolfol pan fyddant yn defnyddio cyfarpar priodol i greu cacen Nadolig yn y gegin fwd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn bwrpasol. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw gyrru'n frwdfrydig ar feiciau a cherbydau yn yr ardal allanol ac wrth ddawnsio i gerddoriaeth.

### **Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n ardderchog ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad ac yn ystod eu hamser yno. Maent yn dangos cymhelliant a diddordeb arbennig o dda yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n ddiwyd iawn yn ystod tasgau. Mae bron pob plentyn yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol ym mhob maes dysgu ac maent yn rhannu a gweithio'n fwriadus a synhwyrol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau o'r safon uchaf tuag at brofiadau newydd a thasgau heriol fel canu caneuon Nadolig gyda'i gilydd yn gwbl annibynnol yn yr ardal chwarae rôl.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac maent yn gweithio'n gwbl annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae i ddatrys yr heriau a osodwyd iddynt. Maent yn gwneud dewisiadau meddylgar a chadarnhaol iawn am ba feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau fel chwarae rôl y ffermwr neu drwy fod yn gogydd wrth y gegin fwd. Maent yn esbonio'n hyderus ac eglur iawn pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt a beth sydd yn eu cymell i lwyddo. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain fel cylchdroi'r tywod trwy'r felin. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn dechrau mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn llwyddiannus iawn, yn enwedig wrth gynnig mewnbwn i gynnwys eu themâu.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn ardderchog ac maent yn gwrtais dros ben. Maent yn dangos parch a chwarteisi diffuant wrth ymateb i oedolion a'i gilydd, sy'n cyfrannu at ethos cynhyrchiol iawn. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ac aeddfed ar oedolion, er enghraifft wrth gydweithredu'n gadarnhaol iawn gyda'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â bywyd dyddiol y lleoliad fel perchnogion siopau'r pentref. Yn ogystal, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn bod glendid yn bwysig ac yn cyfrannu tuag at fywyd iachus. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb anogaeth gan ymarferwyr, ar ôl defnyddio'r toiled a chwarae anniben ac yn esbonio pwysigrwydd y gweithgaredd yn ddeallus iawn.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm hynod ddiddorol ac ysgogol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol iawn. Maent yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu creadigol iawn ar y cyd, sy'n targedu anghenion a diddordebau'r plant yn fwriadus. Er enghraifft, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ysgogol yn yr ardal allanol i blant ymholi ac ymchwilio yng ngwesty'r trychfilod. Mae hyn yn datblygu chwilfrydedd ac awydd y plant i ddysgu yn arbennig o dda ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus dros ben ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drwyadl i sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae gweithgareddau cyffrous i gymharu cyfaint, fel arbrofi gyda blychau gwahanol yn y tywod a gyda dŵr, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd y plant. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd buddiol i ymestyn defnydd y plant o lythrennau gwahanol wrth ymarfer ysgrifennu eu henwau gyda chyfryngau gwahanol fel creonau a sialc. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant, sy'n deillio o'u penderfyniadau personol cyn iddynt ddechrau'r themâu. O ganlyniad, mae'r tasgau dyddiol a ddarperir, ar draws yr holl feysydd dysgu, yn herio'r plant yn dda iawn i berfformio ar eu gorau'n gyson.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, recordydd llais a chamerâu. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol iddynt ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau'n llwyddiannus i gyfatebu â'r themâu ac anghenion y plant. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn effeithiol.

Nodwedd ragorol o waith y lleoliad yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn arbennig o dda. Maent yn modelu'r iaith yn grefftus, er enghraifft drwy ailadrodd ymadroddion a chanu hwiangerddi yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith ardderchog ar fedrau ieithyddol y plant ac mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o blant o'r iaith yn datblygu'n gyflym. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn creu ymwybyddiaeth dda iawn ymysg y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, a chymharu nodweddion mynyddoedd fel y Frenni Fawr a'r Frenni Fach.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n datblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn fwriadus. Maent yn gweithio'n ddiwyd â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau llwyddiannus, sy'n cymell y plant i gydweithio a dysgu'n ymarferol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i yrru beiciau a cherbydau, ymweld â'r pentref a'r parc ac ymchwilio yn yr ardal natur.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd eithriadol o dda o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Yn dilyn ymweliadau cyson â'r ardal leol, mae ymarferwyr yn annog y plant yn feistrolgar i drafod ac adlewyrchu nodweddion eu milltir sgwâr trwy greu map atyniadol o'u taith o gwmpas y pentref. Mae'r partneriaethau â busnesau a sefydliadau lleol yn nodwedd arbennig o waith y lleoliad. Yn ogystal, maent yn gwahodd ymwelwyr i'r lleoliad, fel y glanweithydd deintyddol, swyddog diogelwch y



ffyrdd ac aelodau o'r gwasanaethau brys fel y swyddog tân. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant o bobl yn eu cymuned yn llwyddiannus iawn.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant. Maent yn cydweithio'n ddiwyd â'i gilydd fel tîm o addysgwyr effeithiol. Maent yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae eu dealltwriaeth ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiynau. Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn fedrus ac yn dyner. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth weithio tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn drylwyr yn ystod gweithgareddau. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn feistrolgar ac yn modelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog iawn i bob un plentyn. Maent yn holi'r plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn yn effeithiol wrth ymholi am stori'r geni ym Methlehem. O ganlyniad, anogir y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, sy'n atgyfnerthu'n gadarn eu dealltwriaeth o wahanol gysyniadau heriol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r ymarferwyr yn dueddol i ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant. Mae hyn yn llesteirio trafodaethau, mewnbwn a dysgu annibynnol y plant.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o asesu plant ac yn cofnodi eu cynnydd yn effeithiol drwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn synhwyrol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr, sy'n atgyfnerthu hyn yn effeithiol. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni a gofalwyr. Mae hyn, gydag adroddiad manwl, yn adlewyrchu cynnydd eu plant dros amser yn llwyddiannus.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dulliau cadarnhaol i feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhlith y plant. Maent yn llwyddo i atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i wneud llinell ac aros eu tro i wisgo'u cotiau cyn dechrau dysgu yn yr awyr agored a rhannu cyfarpar yn synhwyrol yn yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn defnyddio sesiynau torfol bywiog a brwdfrydig i sicrhau bod y plant yn cyfarch ei gilydd, meddwl yn ofalus am deimladau eraill, gweddïo a dweud diolch pan fo'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i unigolion helpu gyda chyfrifoldebau penodol yn ystod yr amser byrbryd. O ganlyniad, mae eu rôl fel 'helpwr y dydd' yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt feithrin cyfrifoldeb yn eu tro.

Mae gan ymarferwyr drefniadau cadarn i gefnogi iechyd a lles y plant ac maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddietau synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini yn rheolaidd. Er enghraifft, drwy weithgareddau fel gyrru beiciau a rhedeg o un man i'r llall, mae'r plant yn deall bod gweithgareddau i gyflymu'r galon yn effeithio ar eu bywydau'n gadarnhaol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig, cetrin inc a bwyd yng nghyntedd y lleoliad. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn fwriadus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad pwrpasol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion. Maent yn gofyn yn aml am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau heb bryder ac yn rhyngweithio a sgwrsio gyda'r ymarferwyr yn hyderus.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn gyson a chaiff eu manau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant yn bodoli a chânt eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol pan fo'r angen yn codi.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cymuned gynhwysol, lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu a'r cyfarpar sydd ar gael. O ganlyniad, maent yn cydnabod unigolrwydd ac anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau dyddiol sy'n anelu'n gyson at greu amgylchedd diddorol i'r plant, yn yr adeilad a'r ardal allanol. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cefnogol a chynhyrchiol o un sesiwn i'r llall.

Mae pwyslais cadarn gan yr ymarferwyr ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Diwali a Hanukkah. Yn ogystal, maent yn trafod yn ddeallus storïau moesol o Affrica, i godi ymwybyddiaeth y plant o fywydau eraill ledled y byd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae ystod eang o adnoddau ar gael i bob plentyn ddewis, eu defnyddio a'u rhoi heibio. Mae hyn yn hyrwyddo'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb yn effeithiol. Yn ystod gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau lle y mae'r plant yn gweithio'n annibynnol, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r adnoddau dysgu. Gwelir hyn wrth iddynt wneud marciau gyda sialc ar fyrddau du yn yr ardal allanol a llifo dŵr drwy bibellau i lenwi blychau.

Mae'r caban a'r ardal allanol yn hunangynhaliol ac o ansawdd safonol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â diogelwch y safle yn drylwyr. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd buddiol i blant dyfu planhigion mewn ardaloedd plannu, yn ogystal â chyfarpar ymchwiliol fel dŵr, tafol a thŷ bach twt. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer defnyddio ardaloedd yr ysgol a'r pentref fel adnoddau dysgu pwrpasol yn effeithiol iawn.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad bwriadus i waith y lleoliad. Mae hi, trwy gydweithio cadarn â'r ymarferwyr, wedi sefydlu arferion cyson ar gyfer gweithdrefnau dyddiol a thymor hir y lleoliad. Maent yn gweithio'n gydwybodol ac yn ymroi'n llwyr i lwyddiant y lleoliad er lles y plant.

Mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. Maent yn cymell y plant i wella'u gwaith yn gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol. O ganlyniad, mae'r weledigaeth gadarn a'r addysgu deallus yn sicrhau bod y profiadau dysgu a'r gofal yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Mae'r partneriaethau rhagorol sydd yn eu lle yn cael effaith ardderchog ar les y plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn drylwyr. Mae hyn yn arwain at gynllunio pwrpasol a ffocws clir ar gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant. O ganlyniad, maent yn creu newidiadau synhwyrol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored, i herio'r plant i berfformio ar eu gorau. Er enghraifft, maent yn difyrru'r plant trwy greu ardaloedd ymchwiliol yn yr awyr agored gyda chyfleoedd i dorri gwair â sisyrnau. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn defnyddio'r ardal leol fel sbardun i wella dysgu'r plant. Mae ei bwriadau strategol yn creu ymwybyddiaeth gadarn o'r pentref a phwysigrwydd rolau gweithwyr penodol yn y gymuned. O ganlyniad, mae'r berthynas â'r swyddogion tân, busnesau lleol a churadur hen dractorau yn effeithio'n fwiadus ar ddeilliannau'r plant, yn enwedig eu lles. Mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddatblygu flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'r lleoliad ac yn herio'r arweinydd a'r ymarferwyr yn effeithiol i gynnal a gwella'u harferion. Drwy dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau bod y profiadau dysgu ac arferion addysgu'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Yn ogystal, mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r incwm, y gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau a'r diwylliant sefydlog o hunanwerthuso yn effeithio'n llwyddiannus ar waith y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau

ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofawyr, y plant ac asiantaethau allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar greu newidiadau pwrpasol er lles y plant. Er enghraifft, maent wedi ymateb i gyngor gan Mudiad Meithrin i fynd am dro yn amlach ac atgyfnerthu'r cysylltiadau lleol i wella dealltwriaeth y plant o'u cymuned.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae hi a'r ymarferwyr wedi greu gwelliannau buddiol i'r ddarpariaeth trwy werthusiadau a thargedau pwrpasol. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys ategu at adnoddau yn yr ardal allanol ymhellach drwy greu ardal natur dan law gwirfoddolwr. Mae hyn wedi ymestyn y cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored yn effeithiol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau trylwyr i fonitro safonau'r plant, y ddarpariaeth a'u rolau ym mywyd dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae'r gweithdrefnau hyn yn eu galluogi i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella yn dda. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau i wella ansawdd yn arwain at newidiadau pwrpasol, sy'n sicrhau cynllunio buddiol a targedau dilys ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, maent wedi targedu a gwella'r ardal ddarllen yn ddiweddar trwy dderbyn cyngor gan y plant ar sut i drefnu'r adnoddau'n well. O ganlyniad, mae mwy o blant yn eistedd yn yr ardal ddarllen i drafod llyfrau yn bwrpasol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor ar sut i drefnu'r ardaloedd dan do, ynghyd â darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu yn yr ardal allanol, wedi gwella'r ddarpariaeth a gallu'r plant i gymhwyso'u medrau yn well. O ganlyniad, maent wedi greu amgylchedd dysgu effeithiol, yn yr adeilad a'r awyr agored, sy'n deillio o hunanwerthuso effeithiol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau buddiol sy'n cael effaith ardderchog ar les y plant. Mae'r partneriaethau hyn yn hynod lwyddiannus ac yn cyfrannu at greu ethos o gynnig darpariaeth ddifyr, ysgogol a chreadigol, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae defnyddio partneriaid allanol fel gwirfoddolwr i ddatblygu'r ardal allanol yn enghraifft ragorol o arloesedd y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn â nhw i ddatblygu'r holl ofod i gynnig profiadau ysgogol i'r plant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol dros ben o'r gymuned leol i gyfrannu'n gryf at les y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwych i'r plant ddefnyddio arian mewn sefyllfaoedd byw wrth iddynt brynu ffrwythau a nwyddau ar gyfer y lleoliad yn y siopau lleol. Mae'r arferion gwefreiddiol hyn yn galluogi'r lleoliad i ddatblygu fel cymuned hunangynhaliol. Mae'r arferion yn cyfrannu at brofiadau dysgu'r plant yn eithriadol o dda mewn modd ymarferol a hynod bwrpasol.

Mae gan y lleoliad berthynas weithredol iawn gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio fel esiampl o leoliad effeithiol iawn ganddynt. O ganlyniad, maent yn rhannu ei arferion effeithiol gyda lleoliadau eraill yn

yr awdurdod lleol a thu hwnt. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn esiampl ddibynadwy a dilys o leoliad sy'n arwain y ffordd ynglŷn â chreu gwelliannau trwy hyfforddi ymarferwyr yn bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys ymfalchïo yn y berthynas sydd ganddynt gyda Mudiad Meithrin, sy'n gwella'r ddarpariaeth yn y lleoliad trwy gydweithio deallus.

Mae'r partneriaethau pwysig, yn enwedig â'r gymuned, y pwyllgor rheoli, yr ysgol a'r rhieni a gofalwyr, yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wella ansawdd y lleoliad.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref iawn â'r gymuned. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cysylltiadau, sydd wedi bodoli dros nifer o flynyddoedd, gyda'r capel lleol. Mae'r plant yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau yno, gan gynnwys cyngerdd Nadolig.

Mae gan y lleoliad berthynas hynod gadarnhaol â rhieni a gofalwyr. Mae'r cyfathrebu effeithiol iawn yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael iddynt yn rheolaidd, sy'n cynnwys llyfryn gwybodaeth defnyddiol iawn am arferion y lleoliad. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn creu deialog glir rhwng y lleoliad a'r rhieni. Mae'r lleoliad wedi manteisio ar y berthynas gref â'r rhieni i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth greu gegin fwd yn yr ardal tu allan. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn chwarae rhan allweddol yn ei gymuned, er enghraifft drwy ddefnyddio'r pentref a'r sefydliadau yno i gynnal nosweithiau cymdeithasol bwriadus i'r plant a'r rhieni.

Mae'r bartneriaeth â'r ysgol sy'n rhannu'r safle gyda'r lleoliad yn llwyddiannus dros ben. Mae'r lleoliad yn darparu dogfennaeth ddefnyddiol i sicrhau'r pontio gorau posibl ar gyfer y plant pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac mae'r cyfathrebu rhwng yr arweinydd a'r athrawes gyswllt yng nghyfnod sylfaen yr ysgol yn dda iawn. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo i'r ysgol yn dda iawn ac yn setlo'n gyflym yno.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn canolbwyntio'n gydwybodol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Maent yn sicrhau bod gwaith dyddiol yr ymarferwyr yn ddiwyd ac yn targedu anghenion y plant yn ddeallus.

Mae'r arweinydd yn dyrannu dyletswyddau'n bwrpasol. Mae hi'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus i wella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi defnyddio gwybodaeth o hyfforddiant ar ddefnyddio'r pentref i wella ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin sydd hefyd wedi cael effaith sylweddol ar eu lles. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gadarn wedi'i sefydlu, sydd â diwylliant o gydweithio da iawn rhwng ymarferwyr a phartneriaid allanol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid y gweithgareddau yn yr adeilad a'r ardal allanol yn aml i sbarduno'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu a heriau penodol. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal allanol i gynnwys tŷ bach twt, ardal blannu ac ardal natur ddefnyddiol iawn.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn llwyddiannus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddoeth. Mae eu gwaith yn sicrhau gwelliannau rheolaidd yn y ddarpariaeth fel gwella'r cyfarpar TGCh cyfredol a teganau mawr yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd cynnydd da'r plant a'u lles rhagorol, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

<b>AGC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg